COMISIYNWYR Elusennau ar gyfer Lloegr a Chymru

Rheolaeth Ariannol Fewnol
Rhestr Wirio i Elusennau

Nodiadau ar sut i lenwi'r ffurflen hon

Lluniwyd y gyfres ganlynol o gwestiynau i helpu ymddiriedolwyr elusennau werthuso eu perfformiad yn erbyn y canllawiau a awgrymir yn y cyhoeddiad hwn.

Fe'ch cynghorir i adolygu perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn enwedig pan fydd unrhyw broblemau yn codi. Os ydych yn ticio 'Nac ydy' ar gyfer unrhyw gwestiynau mae'n bosib y bydd angen i chi ail-edrych eich trefniadaethau.

Canllawiau/Argymhelion	A yw'ch elusen chi yn cydymffurfio?	
Gofynion ynglŷn a chyfrifon (paragraff 11)	Ydy	Nac ydy
A yw llyfrau a chofnodion priodol yn cael eu cadw o'r holl drafodion?		
A yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion dogfen lywodraethol yr elusen o ran archwiliad allanol ac, yn enwedig, Rhan VI Deddf Elusennau 1993?		
A yw'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan ymddiriedolwyr mewn cyfarfod blynyddol?		
A yw ymddiriedolwyr newydd yn cael copi o'r cyfrifon diweddaraf pan gânt eu penodi?		
A yw ymddiriedolwyr presennol yn cael copi o'r cyfrifon bob blwyddyn?		

Strwythur trefniadol (paragraffau 12-20)	Ydy	Nac ydy
A oes cynllun sy'n dangos strwythur trefniadol yr elusen?		
A yw llinellau awdurdod ac adrodd wedi'u nodi yn ysgrifenedig ac yn cael eu cyfathrebu i'r holl ymddiriedolwyr a'r staff?		
A yw unrhyw bolisi dirprwyo wedi'i nodi yn ysgrifenedig ac yn cael ei ddosbarthu i'r holl staff?		
A yw tasgau'n cael eu rhannu sy'n cynnig 'gwiriad dwbl' awtomatig?		
A yw'r holl staff a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant priodol?		
A yw cyngor proffesiynol yn cael ei geisio pan fo'n briodol?		
A yw pob ymddiriedolwr wedi darllen cyhoeddiad CC3 - Yn Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod?		

Cyllidebau (paragraffau 23-25)	Ydy	Nac ydy
A yw cyllidebau blynyddol yn cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr sy'n cwmpasu incwm a gwariant?		
A yw perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn cyllidebau yn rheolaidd?		

Derbyniadau trwy'r post (paragraff 27)	Ydy	Nac ydy
A yw'r post yn cael ei agor ym mhresenoldeb 2 berson cyfrifol?		
A yw'r holl sieciau a'r arian parod a dderbynnir yn cael eu cofnodi ar unwaith?		
A yw'r cofnodion yn cael eu cadarnhau gan rywun heblaw'r person sy'n gwneud y cofnod?		
A oes rota staff ar gyfer agor y post?		
A yw diogelwch post nad yw'n cael ei agor yn cael ei sicrhau?		

Incwm o gasgliadau (paragraffau 28-30)	Ydy	Nac ydy
A yw casgliadau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer casgliadau cyhoeddus?		
A yw blychau casglu yn cael eu rhifo ac a yw dosbarthu a dychwelyd y blychau yn cael eu nodi?		
A yw pob blwch casglu yn cael ei selio?		
A yw blychau sefydlog yn cael eu hagor a'u cyfrif yn rheolaidd gan swyddogion yr elusen ac a yw cofnod yn cael ei gadw o'u lleoliad a'r arian sydd ynddynt?		

Incwm o gasgliadau (paragraffau 28-30) parhad	Ydy	Nac ydy
A yw casgliadau yn cael eu cyfrif ym mhresenoldeb y casglwr ac a roddir derbynneb iddynt o lyfr dyblygu?		
A oes rheolaeth ddeuol dros gyfrifyddu a chofnodi?		
A yw arian yn cael ei dalu yn uniongyrchol i gyfrif banc yr elusen?		
A yw casgliadau amlenni wedi eu hawdurdodi gan Dystysgrif Esgusodiad y Swyddfa Gartref ac yn cael eu rheoli yn yr un modd?		

Digwyddiadau neu ymgyrchoedd codi arian (paragraffau 31-34)	Ydy	Nac ydy
A oes cofnodion ar gyfer pob digwyddiad codi arian?		
A oes rheolaeth gyfatebol ar gyfer derbyniadau ac incwm arall o roddion?		
Ar gyfer incwm o docynnau:		
A yw tocynnau'n cael eu rhifo ymlaen llaw?		
A yw cofnod yn cael ei gadw o bob person sy'n cael tocynnau i'w gwerthu, a pha rifau a roddwyd iddynt?		
A oes cofnodion ar gyfer y tocynnau a werthwyd?		
A yw arian a dderbynnir yn cael eu gwirio yn erbyn y tocynnau a werthwyd?		
A yw cofnodion tebyg yn cael eu cadw ar gyfer digwyddiadau noddedig?		
A ydych wedi cydymffurfio â Rhan 11 Deddf Elusennau 1992 os yw codwyr arian proffesiynol yn cael eu defnyddio?		

Cyfraniadau Rhodd Cymorth (paragraffau 35-37)	Ydy	Nac ydy
A oes gwirio rheolaidd i sicrhau bod y symiau sy'n ddyledus yn cael eu derbyn?		
A oes gwirio rheolaidd i sicrhau bod pob ad-daliad treth cymwys yn cael ei dderbyn?		

Trefniadaethau bancio a gwarchodaeth (paragraff 38)	Ydy	Nac ydy
A yw derbyniadau incwm yn cael eu bancio'n brydion ac yn rheolaidd (o leiaf bob wythnos)?		
A yw diogelwch popeth gwerthfawr yn cael ei sicrhau yn yr adeilad?		
A oes rhaid llofnodi am allwedd i'r coffor neu'r blwch arian parod?		
A oes gennych yswiriant ar gyfer cynnwys y coffor neu'r blwch arian parod?		
A yw'r holl arian a dderbynnir yn cael ei fancio ac nid yw unrhyw symiau'n cael eu dal drosodd ar gyfer 'bwydo' arian mân?		
A oes gennych ddatganiad ysgrifenedig ar gyfer trefniadaethau bancio a gwarchodaeth er gwybodaeth i'r staff a'r gwirfoddolwyr?		
A yw arian sy'n perthyn i'r elusen yn cael ei ddal ar wahân i arian unrhyw ymddiriedolwr unigol/aelod o staff?		
A oes dulliau rheoli ar gyfer llyfrau derbyniadau o ddosbarthir gan yr elusen?		

Gwirio cofnodion incwm (paragraffau 39-42)	Ydy	Nac ydy
A oes gwirio rheolaidd i sicrhau bod cofnodion yn gywir?		
A oes gwirio rheolaidd i sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng cofnodion?		
A yw rhywun heblaw'r swyddog cofnodi gwreiddiol yn gwirio'r cofnodion?		
A oes unrhyw defyniadau ar incwm a roddir?		

Rheolaeth dros wariant (paragraffau 43-44)	Ydy	Nac ydy
A yw'r holl wariant yn cael ei awdurdodi'n briodol?		
A oes dogfennaeth ategol ar gyfer yr holl wariant ee anfonebau?		
A yw llyfrau sieciau etc yn cael eu cadw mewn lle diogel a dim ond y bobl a enwebir sy'n gallu eu defnyddio?		
A yw rhywun heblaw'r swyddog awdurdodi yn paratoi taliadau?		
A yw datganiad ysgrifenedig o bolisi ac arfer ar drefniadaethau talu ar gael i bob ymddiriedolwr a'r staff?		

Rheolaeth dros bryniant (paragraff 45)	Ydy	Nac ydy
A yw anfonebau yn cael eu gwirio yn erbyn yr archebion?		
A yw cofnodion yn cael eu cadw o'r archebion a roddwyd ond sydd heb gyflawni?		
A yw ansawdd a maint y nwyddau a gyflenwyd yn cael eu gwirio yn erbyn yr archebion?		
A yw stoc yn cael ei wirio'n rheolaidd?		
A oes cofnod o'r lefelau awdurdod ar gyfer rhoi archebion?		
A yw taliadau yn cael eu gwneud yn erbyn anfonebau gwreiddiol yn unig?		

Talu â siec (paragraff 46)	Ydy	Nac ydy
A ydych yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion yn y ddogfen lywodraethol ynglŷn a phwy all lofnodi sieciau?		
A oes o leiaf 2 lofnodwr ar y gorchymyn banc?		
Os modd cael llofnodwyr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ar y gorchymyn?		
A oes polisi na all llofnodwr a enwebir lofnodi siec sy'n daladwy i'w hunan?		
A oes polisi o beidio â llofnodi sieciau gwag?		
A oes cofnod ysgrifenedig o unrhyw derfynau ariannol ar gyfer unigolion sy'n llofnodi?		
A wneir pob ymdrech i gael i lleiaf posibl o daliadau arian parod?		
A yw'r holl wariant â sieciau'n cael eu cofnodi yn y llyfr arian parod ac yn cael eu nodi gyda'r rhif siec perthnasol?		
A yw pob bonyn yn cael ei gwblhau adeg talu?		
A yw sieciau yn cael eu llofnodi gyda thystiolaeth ddogfennol a natur y taliad?		

Talu ag arian parod (paragraff 47)	Ydy	Nac ydy
A yw pob taliad og arian parod yn cael ei wneud o fflôt arian parod?		
A yw'r fflôt arian parod yn cael ei dynnu o'r banc ac nid o arian a dderbynnir?		
A oes dogfennaeth ategol ar gyfer pob taliad?		
A yw dogfennaeth ategol wedi'i hawdurdodi gan rywun heblaw'r ariannwr neu'r hawliwr?		
A yw'r symiau sy'n cael eu hawlio yn cael eu nodi ar daleb arian mân?		
A yw pob taliad yn cael ei nodi mewn llyfr arian mân?		
A yw'r holl arian o dynnir o'r banc ar gyfer ail-lenwi yn cael eu nodi yn y llyfr arian mân?		
A yw rhywun heblaw'r ariannwr yn gwirio cofnodion arian mân yn rheolaidd?		

Cyflogau wythnosol a misol (paragraffau 48-49)	Ydy	Nac ydy
A yw cofnodion Personél yn cael eu cadw a'u dal ar wahân i'r cofnodion cyflogau?		
A yw lefelau cyflogau yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol?		
A ydych yn gwirio er mwyn cadarnhau bodalaeth gweithwyr?		
A yw taliadau arian parod yn cael eu hosgoi lle bynnag posibl?		
Os ydych yn gwneud taliadau arian parod a yw rhywun heblaw'r person sy'n gyfrifol am y rhestr gweithwyr yn gwneud y tâl ac a oes rhaid llofnodi amdano?		
A yw staff yn cael eu cyflogi dan gytundeb cyflogaeth cywir ac a yw cydymffurfio â rheoliadau TWE/YG yn cael ei sicrhau?		

Rheolaeth dros asedion sefydlog (paragraff 53)	Ydy	Nac ydy
A oes rhestr ac a yw'n cael ei diweddaru'n gyson?		
A yw asedion yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr da ac o ddefnydd i'r elusen?		
A ydych wedi ystyried yswiriant?		
A yw'r defnydd o asedion sefydlog yn cael ei adolygu'n flynyddol (i sicrhau'r defnydd gorau ohonynt a'u bod yn gwasanaethu buddiannau'r elusen)?		

Buddsoddiadau (paragraffau 54-55)	Ydy	Nac ydy
A oes cofnodion llawn o'r holl fuddsoddiadau ac a yw cofnodion yn cael eu cadw mewn lle diogel?		
A yw polisi buddsoddi wedi cael ei lunio?		
A yw perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd?		
A ydych yn ceisio cyngor proffesiynol ar ddethol neu werthu buddsoddiadau?		
A yw datganiadau o berfformiad buddsoddiadau yn cael eu hanfon at ymddiriedolwr a enwebir ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan bob ymddiriedolwr?		
A oes dulliau rheoli i sicrhau bod yr holl ddifidendau sy'n ddyledus yn cael eu derbyn?		
A yw buddsoddiadau yn cael eu hamrywio sy'n golygu na fydd un methiant yn cael effaith sylweddol ar yr elusen?		

Cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladau (paragraff 56)	Ydy	Nac ydy
A oes cofnodion diogel o bob cyfrif?		
A yw cysoniadau banc yn cael eu gwneud yn rheolaidd?		
A yw cyfarwyddiadau i gau neu agor cyfrifon yn cael eu hawdurdodi'n briodol a/neu yn cael eu hadrodd i'r ymddiriedolwyr?		
A ydych yn gwirio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfrifon banc segur?		
A yw cyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan yr ymddiriedolwyr?		
A oes croes-wirio rhwng cyfriflenni banc a chymdeithas adeiladu a chofnodion incwm a gwariant?		